# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU 10 MEDI AM 5.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd C. Andrews – Y Maer
Y Cynghorydd J. Gale – Y Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, A.P. Angel, J. Bevan, P.J. Bevan, C. Bezzina, L.J. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A.G. Higgs, A. Hussey, M.P. James, V. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G.D. Oliver, B. Owen, Mrs T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151 Dros Dro) R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

**TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'r cyhoedd yn fyw ac ar ffurf archif trwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud trwy Microsoft Forms yn Teams.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Bevan, D. Hardacre, D. Harse, B. Jones, A. Leonard, G. Oliver, M. Sargent.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

**DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR**

Trwy ei datganiad, rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Aelodau ei bod hi, gyda thristwch, wedi derbyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Carl Cuss brynhawn ddoe o swydd Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol.

Cydnabu'r Arweinydd y gwaith yr oedd y Cynghorydd Cuss wedi'i wneud yn y Cabinet yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'i wasanaeth i'r gymuned, a'i fod wedi gweithredu gyda chryn uniondeb drwy ymddiswyddo.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod angen iddi bellach ystyried llenwi'r rôl allweddol hon yn y Cabinet cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y Cyngor hwn yn barod i wynebu'r agenda arwyddocaol a heriol sydd o'i flaen. Teimlai ei bod yn hollbwysig bod Cabinet llawn ar waith i arwain yr awdurdod yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

Mynegodd Arweinydd Grŵp Plaid ei siom yng ngweithredoedd y cyn Aelod y Cabinet, ond roedd yn parchu uniondeb ei benderfyniad i gydnabod y camgymeriadau a wnaed ac ymddiswyddo.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

**4. YMATEB Y CYNGOR I'R PANDEMIG CORONAFEIRWS**

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr adroddiad a chyflwyniad a oedd yn manylu ar ymateb y Cyngor i'r pandemig Coronafeirws.

Yn gyntaf, talodd yr Arweinydd deyrnged i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled a'u hymroddiad, a'r ffordd yr oeddent wedi ymateb i'r argyfwng. Talwyd teyrnged i'r ffordd yr oedd staff wedi ymateb i ailffurfio ac ad-drefnu gwasanaethau i sicrhau bod yr awdurdod yn gallu ateb yr heriau niferus a gyflwynwyd gan y brigiad o achosion.

Esboniodd yr Arweinydd sut oedd byddin o staff a gwirfoddolwyr wedi cael ei threfnu a sut oeddent oll wedi mynd gam ymhellach i helpu. Crëwyd gwasanaeth prydau ysgol am ddim arloesol a phoblogaidd iawn sy'n parhau i arwain y ffordd yng Nghymru. Trawsnewidiwyd safleoedd ysgolion yn hybiau gofal plant i weithwyr allweddol a datblygwyd tîm Ymateb Cymunedol newydd i gynorthwyo trigolion a oedd yn gwarchod. Trefnwyd 'cyfeillion' i gynorthwyo'r henoed a phobl agored i niwed i wneud eu siopa a chael cyflenwadau meddygol, yn ogystal â darparu cysylltiad cymdeithasol yr oedd mawr angen amdano i'r rhai a oedd yn gaeth i'w cartrefi. Roedd yn amlwg bod dyled enfawr o ddiolch i bawb dan sylw.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd am y gwaith caled a wnaed i ddiogelu cymunedau ers y cyfyngiadau symud. Mae Swyddogion Gorfodi yn gweithio gyda busnesau lleol ar draws yr ardal i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn cydweithredu â chyfyngiadau'r coronafeirws. Tasg enfawr yw hon sy'n cael ei chyflawni gan grŵp o Swyddogion ymroddedig a chydwybodol.

Er gwaethaf yr holl waith da hwn, roedd yr Arweinydd yn arbennig o siomedig ein bod yn wynebu cyfyngiadau unwaith eto o ganlyniad i frigiad mewn achosion yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol o'r rhesymau cymhleth ac amrywiol dros y lledaeniad newydd

hwn, yr oedd llawer ohono'n gysylltiedig ag ymddygiad rhai rhannau o'r gymuned. Roedd ail don yn ymddangos yn debygol ac, yn anffodus, roedd yn ymddangos fel petai ardaloedd cyfagos yn symud i'r un cyfeiriad hefyd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad dyma'r adeg i laesu dwylo a bod angen edrych ar y sefyllfa yn Ewrop, lle y gwelwyd cynnydd mewn achosion ymhlith pobl ifanc a ddatblygodd yn gyflym i fod yn fwy difrifol mewn rhannau eraill o'r boblogaeth trwy drosglwyddo cymunedol, a bod derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau'n cynyddu bellach. Mae'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yr wythnos hon yn ceisio ein hatal rhag dilyn yr un llwybr.

Pwysleisiodd yr Arweinydd na ddylem feio neb am y cynnydd hwn mewn achosion, a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd yn lle hynny. Yr hyn oedd yn glir oedd y gwahaniaeth y gallem ei wneud o'r adeg hon ymlaen a'r rhan sydd gennym oll i'w chwarae i gyfyngu ar ledaeniad y clefyd marwol hwn.

Dywedodd yr Arweinydd y bu galwadau i ni i gyd ddychwelyd i Siambr y Cyngor ac ailgychwyn cyfarfodydd arferol. Fodd bynnag, mae'r neges yn glir, nid yw'r coronafeirws wedi diflannu ac mae'r digwyddiadau yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf wedi cadarnhau ein hymagwedd hyd yma. Mae'n rhaid i ni ddiogelu ein pobl a'n lle, a theimlai'n sicr bod yr Aelodau bellach yn cydnabod y bydd angen i'n trefniadau presennol barhau am beth amser eto. Gofynnodd yr Arweinydd i bawb gydweithio fel 'Tîm Caerffili' i fynd i'r afael â'r clefyd ofnadwy hwn fel y gallwn godi'r cyfyngiadau hyn yn y ffordd gyflymaf a mwyaf diogel posibl.

Galwodd y Maer ar Mrs Christina Harrhy, y Prif Weithredwr, i roi cyflwyniad.

Esboniodd y Prif Weithredwr mai diben y cyflwyniad oedd rhoi trosolwg o ymateb y Cyngor i'r pandemig, esbonio'r camau a gymerwyd i liniaru a rheoli risgiau strategol, amlinellu heriau'r pandemig parhaus yn awr ac yn y dyfodol ac ailddatgan yr egwyddor 'Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd'.

Er mwyn rhoi cefndir, dywedwyd wrth yr Aelodau mai yng Ngwent y bu'r gyfradd heintio a marwolaeth uchaf yng Nghymru i ddechrau, ac ychydig iawn o amser oedd gan y Cyngor i wneud trefniadau amgen ar gyfer gwasanaethau, ond ei fod wedi cydweithio gyda'r prif nod o 'ddiogelu ein pobl a'n lle'.

O ran Cynllunio at Argyfwng, nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cychwyn ei Gynllun Rheoli Argyfwng. Prif elfen y cynllun hwn yw'r Tîm Arwain Argyfwng. Ffurfiwyd cysylltiadau â sefydliadau allanol ar unwaith trwy'r Grŵp Cydlynu Strategol a oedd yn cyfarfod trwy'r Fforwm Cydnerthedd Lleol. Cafodd adroddiadau dyddiol i'r Grŵp Cydlynu Strategol eu hanfon ymlaen i Ganolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru (ECCW), sy'n adrodd i Lywodraeth Cymru, sydd yna'n adrodd i Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet (COBR). O ran ymateb 'gwasanaethau', nodwyd bod mwyafrif y 500 a mwy o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i weithredu, er bod rhai yn gweithredu gyda llai o staff. Dywedwyd wrth yr Aelodau yr oedd 1064 o staff yn absennol o ganlyniad i'r feirws ar ei anterth. Roedd angen dybryd i staff ddangos cryn hyblygrwydd ac roedd yr ymateb yn rhyfeddol. Ail-leolwyd staff i feysydd gwasanaeth eraill, gweithiodd eraill o gartref, a chynorthwyodd llawer fentrau newydd fel hybiau gofal plant, grantiau busnes a chynlluniau cyfeillio, i enwi ond ychydig.

Galwodd y Prif Weithredwr ar y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i roi gwybodaeth i'r Aelodau am yr ymateb gan y gyfarwyddiaeth honno. Cadarnhaodd Mr Street fod y rhan fwyaf o wasanaethau'n parhau i weithredu, er y bu rhywfaint o ostyngiad mewn Gofal Seibiant a Gofal Dydd. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai un o'r heriau cychwynnol mwyaf oedd y cyflenwad o gyfarpar diogelu personol, a thalodd deyrnged i ymdrechion staff caffael a chyflenwyr, gan ddweud bod y Cyngor mewn sefyllfa dda diolch i'w gwaith caled. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yr heriau sy'n wynebu cartrefi gofal ac nad oedd Caerffili'n ddiogel rhag y rhain. Un o'r gwasanaethau mwyaf cymhleth i barhau i'w ddarparu oedd Gwasanaethau Plant, gan fod rhaid i'r holl ddulliau

cysylltu arferol gael eu hwyluso'n electronig bellach.  Diogelwch plant a phobl ifanc y Fwrdeistref Sirol yw'r flaenoriaeth o hyd.

O ran Tai, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth yr Aelodau fod holl waith Safonau Ansawdd Tai Cymru wedi cael ei atal dros dro ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau terfyn amser diwygiedig eto.  Roedd staff tai wedi cael eu hail-leoli i'r 'Cynllun Cyfeillio', ond rhoddwyd sicrwydd na chefnwyd ar denantiaid.  Cysylltodd Swyddogion Cymorth Tenantiaid â holl denantiaid y Cyngor trwy alwadau tawelu meddwl i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn iach a bod ganddynt yr hyn oedd arnynt ei angen.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi mai un o'r meysydd mwyaf brys a amlygwyd yn ystod y pandemig oedd digartrefedd.  Cadarnhaodd Mr Street fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i letya pobl fel blaenoriaeth, tra bod cyfleusterau gwesty a gwely a brecwast wedi cael eu cau ar yr un pryd.  Ychwanegwyd at hyn gan benderfyniad y Gweinidog Cyfiawnder i ryddhau rhai carcharorion yn gynnar, er nad oedd hyn wedi cael llawer o effaith ar Gaerffili.  Cafwyd llety brys yng Nghaerffili, Coed Duon, Rhymni, Rhisga a'r Barri.  Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfarwyddo'n glir na ddylai pobl ddychwelyd i'r strydoedd.  Dywedwyd wrth yr Aelodau bod trafodaethau'n parhau ynglŷn â ffynonellau cyllido i sicrhau y gellid parhau i ateb y galw hwn.

O ran y Cynlluniau Cyfeillio, dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Cyngor wedi ysgrifennu at 76,620 o aelwydydd yn syth ar ôl y cyfyngiadau symud gan gynnig helpu pobl a oedd yn bodloni maen prawf penodol ac nad oedd cymorth arall ar gael iddynt.  Ymatebodd 1,550 o drigolion  gan ofyn am gymorth.  Cafwyd ymateb rhyfeddol gan staff, wrth i 590 o bobl wirfoddoli helpu, a'r mwyafrif ohonynt yn gwneud hynny yn eu hamser eu hunain.  Ffurfiwyd y 'cynllun cyfeillio' o ganlyniad i hynny.  Roedd y cynllun hwn wedi cynorthwyo trigolion  agored i niwed a fyddai wedi'i chael hi'n anodd fel arall, ac roedd pobl yn cael eu hannog i wneud eu trefniadau eu hunain bellach wrth i'r cyfnod gwarchod ddod i ben.

Gan droi at y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, amlinellodd Mr Richard Edmunds yr ymateb gan ei gyfarwyddiaeth ef, gan ddechrau gyda'r Hybiau Addysg a Gofal Plant.  Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr Hybiau cyntaf wedi cael eu creu ar 24 Mawrth 2020, yn syth ar ôl i'r cyfyngiadau symud gael eu cyhoeddi, er mwyn darparu gofal plant i weithwyr allweddol.  Crëwyd naw Hyb prif ffrwd, yr oedd un ohonynt yn canolbwyntio'n benodol ar Anghenion Dysgu â Chymorth cymhleth, a dau Hyb ar gyfer disgyblion agored i niwed.  Cynyddodd nifer y disgyblion a oedd yn defnyddio'r Hybiau i 362 y dydd ar gyfartaledd, ac fe'u cynorthwywyd gan fwy na 1700 o staff ysgolion gwirfoddol a staff o rannau eraill o'r Cyngor.

Pan gaeodd ysgolion, roedd angen defnyddio dulliau eraill o fodloni anghenion y 5,500 o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.  Er bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio talebau, aeth Caerffili ati i roi bwyd ar blatiau disgyblion, gan weithio mewn partneriaeth â chyflenwyr lleol i sefydlu canolfan becynnu a dosbarthu yn Nhŷ Penallta.  Mae 675,000 o brydau bwyd wedi cael eu danfon.  Mae'r cynllun wedi tyfu gyda llwybrau danfon ar gyfer 60 o gerbydau i fwy na 5000 o blant, ac mae'r defnydd o brydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 70% i 91%.

Gan symud ymlaen i'r Blynyddoedd Cynnar a Dysgu o Bell yn ystod y pandemig, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod staff wedi darparu cymorth i 400 o deuluoedd agored i niwed a chanddynt blant 0-3 oed.  Roedd y cymorth hwn yn cynnwys cynllun gweithgareddau unigol wythnosol a galwad ffôn ddilynol, a symud mynediad at raglen rianta ar-lein.  O ran dysgu o bell, rhoddodd y Gwasanaeth Cyflawni Addysg arweiniad a strategaeth i ysgolion.  Y prif offeryn a ddefnyddiwyd oedd y platfform dysgu digidol 'Hwb'.  Rhoddodd y Cyngor strategaeth Llywodraeth Cymru ar waith hefyd i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.  Addaswyd offer at ddibenion gwahanol a danfonwyd dros 1000 o ddyfeisiau a oedd yn adlewyrchu'r system 'chrome-book' i ddisgyblion.

O ran Gwasanaethau Cwsmeriaid, nododd yr Aelodau sut oedd dulliau gweithio digidol newydd wedi cael eu cyflwyno a bod staff blaen tŷ wedi cael eu hail-leoli i'r ganolfan gyswllt. Gwnaethant ateb 205,000 o alwadau ac ymdrin â 68,000 o geisiadau am wasanaeth, cyhoeddi 3200 o Fathodynnau Glas dros y ffôn neu ar-lein, helpu 100 o drigolion i gwblhau ceisiadau am dai dros y ffôn, ateb 8000 o negeseuon e-bost a chymryd 30,000 o daliadau ffôn a ddaeth i gyfanswm o £5,142,000.00.

O ganlyniad i'r ffordd newydd hon o weithio, ffurfweddwyd a rhoddwyd 902 o liniaduron yn ystod y cyfyngiadau symud , ynghyd â 389 o ffonau symudol. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol y gwaith gwych a wnaed gan y Gwasanaethau Caffael ac amlinellodd y gwaith rhyfeddol a wnaed i sicrhau 2,382,780 o Fasgiau Gwrth-hylif, 3,000 o Arwyddion Llawr Cadw Pellter Cymdeithasol er mwyn ailagor ysgolion, 34,422 o Boteli o Hylif Diheintio Dwylo, 890 o Roliau o Dâp Llawr Cadw Pellter Cymdeithasol er mwyn ailagor ysgolion, 100,000 o Orchuddion Wyneb, 41,900 o Barau o Fenig a 3,000 o Ffedogau Tafladwy, 800 o Dybiau o Glytiau Alcohol, 1,577 o Finiau, 100 o Thermomedrau a 28,000 o Fagiau ar gyfer Masgiau.

Wrth orffen ei ran ef o'r cyflwyniad, gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i'r Aelodau nodi'r ymdrechion a wnaed gan staff y Gwasanaethau Ariannol a'r gwaith a wnaed gyda thrigolion wrth brosesu'r 3,500 o geisiadau a gytunwyd i ohirio taliadau'r Dreth Gyngor ar gyfer trigolion tan fis Mehefin 2020, gan ddarparu cymorth parhaus. O ran ceisiadau rhyddhad rhent gan denantiaid diwydiannol a Grantiau Cymorth Busnes, gwnaed taliadau i 2,953 o fusnesau a ddaeth i gyfanswm o £34.2m (perfformiad yn y chwartel uchaf yng Nghymru).

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau, sef Mark S. Williams, y gwaith a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth hon yn ystod y cyfyngiadau symud . Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr holl gasgliadau gwastraff a sbwriel wedi gweithredu fel arfer drwy gydol y cyfnod. Roedd casgliadau swmpus wedi cael eu hatal dros dro, ond gwnaethant ailgychwyn ar 5 Mai 2020, ac er bod Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref wedi cael eu cau i atal teithio diangen, gwnaethant hwy ailagor hefyd ar 26 Mai 2020. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd yn falch o gadarnhau bod glanhau strydoedd wedi cael ei ailgyflwyno'n llawn bellach ar ôl gweithredu gwasanaeth cyfyngedig i ddechrau.

Roedd mynwentydd ar agor bellach ac roedd cyfyngiadau cychwynnol ar niferoedd angladdau wedi cael eu cynyddu'n ddiweddar i 30. Roedd torri gwair yn cael ei ailgyflwyno'n raddol ac roedd meysydd parcio trefol a gwledig wedi ailagor ar 30 Mai 2020. Gan droi at weithrediadau priffyrdd, nodwyd bod gwaith archwilio a brys wedi parhau, ac felly hefyd dylunio cynlluniau cyfalaf. Gwnaed gwaith i sicrhau hyfywedd darparwyr trafnidiaeth ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae tasgau rheoleiddiol yn gysylltiedig â chynllunio wedi parhau hefyd.

O ran y broses Gynllunio, nodwyd bod pwerau dirprwyedig wedi cael eu defnyddio i benderfynu ar y materion lleiaf dadleuol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o fewn graddfeydd amser statudol. Fodd bynnag, cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio digidol cyntaf ar 17 Mehefin 2020 ac mae wedi parhau'n ddigidol ers hynny.

Gan symud ymlaen i'r ddarpariaeth Chwaraeon a Hamdden, er bod canolfannau hamdden wedi bod ar gau i'r cyhoedd, ail-leolwyd staff i'r cynllun cyfeilla ac i ddarparu'r gwasanaeth prydau ysgol am ddim. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod pedair prif ganolfan hamdden wedi ailagor bellach a bod gwasanaethau "rheoledig" yn cael eu cynnig o 1 Medi 2020 ymlaen.

Roedd Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd wedi cymryd camau rhagweithiol i gynghori 1800 o safleoedd ynglŷn â chau/ailagor busnesau a chadw pellter cymdeithasol, gan wneud dros 1200 o ymweliadau. Roedd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cynorthwyo 85 o gartrefi gofal gyda mesurau rheoli heintiau ac wedi gwneud dros 1200 o gysylltiadau dilynol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi parhau ar ryw ffurf drwy gydol y cyfyngiadau symud . Er enghraifft, roedd Rheoli Plâu wedi ymateb i fwy na 2800 o geisiadau am wasanaeth; mae Gorfodi wedi ymdrin â'r cynnydd mawr mewn tipio

anghyfreithlon, ac wedi derbyn dros 874 o gwynion ynghylch tipio anghyfreithlon ac ymateb i fwy na 1000 o gwynion ynghylch sŵn, sbwriel a chroniadau sbwriel mewn eiddo.

Parhaodd cofrestryddion i weithredu a chofrestrwyd ddwywaith y nifer arferol o farwolaethau yn ystod y cyfnod cychwynnol rhwng mis Mawrth a mis Mai. Mae'r gwasanaeth bellach yn ymdopi ag ôl-groniad o gofrestriadau yn ardal Gwent ers ailddechrau cofrestru genedigaethau ym mis Gorffennaf, ac mae wedi ymdopi ag ymhell dros 1000 o newidiadau i archebu seremonïau yn ystod y cyfnod o ganol mis Mawrth.

Wrth ddod â'r diweddariadau amrywiol i ben, rhoddodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, sef Mr Robert Hartshorn, wybod i'r Aelodau am yr hyn a fu'n digwydd o ran Cysylltu ac Olrhain. Nodwyd bod gan Gaerffili rôl arweiniol yn ardal Gwent a'i bod yn rhan o fframwaith olrhain a diogelu cenedlaethol, a arweinir gan Mr Hartshorn. Mae timau wedi cael eu sefydlu ar draws yr ardal, gan gynnwys 300 o staff a secondiwyd o lywodraeth leol, a bydd angen yr aelodau staff hyn am sawl mis gan fod y gwasanaeth allweddol hwn yn gweithredu o 8am – 8pm, saith diwrnod yr wythnos.

Cydnabu'r Prif Weithredwr y gwaith eithriadol a wnaed gan bob un o'r Cyfarwyddiaethau, a dywedodd wrth yr Aelodau fod y cyflwyniad yn rhoi amlinelliad yn unig o'r gwaith rhyfeddol a wnaed ac sy'n parhau i gael ei wneud. Yn anffodus, mae digwyddiadau'r ychydig wythnosau diwethaf, o ran teithio dramor ac ymgynnull dan do, wedi achosi brigiad arwyddocaol o achosion COVID19 ac mae cyfyngiadau symud newydd yn y Fwrdeistref Sirol yn dangos yn glir bod y feirws a'i risgiau cysylltiedig gyda ni o hyd.

Gan weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae dull arloesol o hysbysu, rhybuddio a gorfodi yn cael ei hystyried. Mae canolfan brofi symudol wedi cael ei sefydlu yn Nhŷ Penallta a bydd canolfan arall yn cael ei sefydlu yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Bydd trigolion hefyd yn gallu defnyddio'r orsaf brofi yn Rodney Parade, Casnewydd. Rhoddwyd sicrwydd bod data'n cael ei ystyried bob dydd a'i bod yn debygol y bydd y cyfyngiadau symud lleol hyn yn para sawl wythnos. Mynegodd y Prif Weithredwr ei gobaith ynglŷn ag ymateb y cyhoedd i'r cyfyngiadau symud lleol, a gofynnodd i'r Aelodau gyfeirio trigolion sydd â chwestiynau at wefan y Cyngor yn gyntaf ac yna cysylltu â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol os bydd angen cyngor neu gymorth ychwanegol.

Byddai'r materion allweddol wrth symud ymlaen yn canolbwyntio ar ymateb i frigiadau pellach, cynnal ac addasu gwasanaethau newydd ac ystyried newid trefniadaethol i ddarparu hyblygrwydd, adferiad a thwf. Mae angen deall ac ymateb i effaith ariannol y pandemig ynghyd â'r effaith emosiynol a chymdeithasol ar ein cymunedau a sut gallwn gofleidio'r cymunedau hynny wrth i ni weithio tuag at adfer.

Byddai diogelwch y cyhoedd a staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i ni symud ymlaen fel un Cyngor sy'n wynebu heriau parhaus gyda'n gilydd. Mae dirwasgiad, effaith COVID-19, Brexit a'r newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn rhannau allweddol o gynllunio at y dyfodol. Wrth orffen y cyflwyniad, mynegodd Mrs Harrhy ei hedmygedd at y ffordd y mae pawb wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y cyfnod hwn, a chredai ein bod wedi gweld gwir wasanaeth cyhoeddus gan weision cyhoeddus brwdfrydig.

Mynegodd yr Aelodau eu diolch i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r ymgymeriad enfawr hwn, a chydnabuont hefyd y rôl yr oedd Cynghorwyr wedi'i chwarae, na ddylid ei bychanu. Mynegodd yr Aelodau bryderon bod rhai diffygion cyfathrebu yn ystod y cyfyngiadau symud ac y bu'n anodd cysylltu â Swyddogion ac Adrannau yn aml.

Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Aelodau ei bod wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ond y byddai'n fodlon trafod unrhyw feysydd i'w gwella.

Diolchodd Aelod i'r Cynghorydd Cuss am y gwaith a wnaeth yn ystod y cyfyngiadau symud o ran gofal cymdeithasol, a disgrifiodd ei brofiad gwerth chweil ei hun o'r cynllun cyfeillio, gan

obeithio y byddai'n parhau ar ryw ffurf. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at yr anawsterau cychwynnol o ran cymorth busnes, a chofnododd ei ddiolch am ymdrechion y Gwasanaethau Ariannol.

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr am beidio â chynnwys ymdrechion Aelodau Etholedig yn y cyflwyniad, ond byddai ganddynt rôl allweddol wrth symud ymlaen, a hwythau'n wyneb y sefydliad. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cynllun Cyfeilla wedi cael ei gwtogi wrth i gynlluniau symud ymlaen, ac y byddai trigolion yn cael eu hannog i ddychwelyd i siopa ac arferion blaenorol os oeddent yn gallu. Fe'i calonogwyd hefyd gan arsylwadau ar y cynllun gan y rhai a oedd wedi cymryd rhan, ac adleisiodd llawer o bobl y sylwadau a wnaed yn gynharach. Dywedodd fod y 300 o bobl wedi cytuno i barhau i wirfoddoli trwy'r Cynllun Gwirfoddoli Corfforaethol.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd y Tîm Busnes Corfforaethol am ba mor gyflym yr ymatebodd i'r broses ymgeisio am grantiau, a oedd wedi achub llawer o fusnesau lleol. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y gwaith sy'n cael ei wneud i helpu canol trefi i adfer.

Diolchodd Aelod i'r Arweinydd am ei gwaith caled yn ystod y cyfyngiadau symud , a cheisiodd eglurhad ynglŷn â nifer yr hysbysiadau a roddwyd ynglŷn â grwpiau'n casglu yn ystod y cyfyngiadau symud pan oedd parciau ar gau. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Cymunedau nad oedd ganddo'r wybodaeth wrth law ond y byddai'n ei hanfon ymlaen ar ôl y cyfarfod.

Mynegodd Aelod bryderon ynglŷn â chydnerthedd economaidd y Fwrdeistref Sirol o ganlyniad i'r pandemig, yn enwedig wrth i gyfnodau ffyrlo ddod i ben a risg cynnydd mewn cyfraddau heintio, a gofynnodd a fyddai unrhyw gyllid ychwanegol ar gael. Mynegwyd pryderon hefyd ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus ac a fyddai llwybrau a ataliwyd dros dro yn ystod y cyfyngiadau symud yn cael eu hadfer.

Rhoddwyd sicrwydd bod llwybrau bysiau wedi cael eu gwarchod cyn belled ag y bo'n bosibl. O ran y rhagolwg ariannol, er bod y sefyllfa'n symud yn gyflym, cysylltwyd â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyllid ychwanegol ar gyfer y broses adfer. Byddai manylion hynny'n destun adroddiadau ychwanegol a fyddai'n cael eu cyflwyno maes o law.

Diolchodd Aelod i'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn ystod y pandemig a hefyd i staff y GIG am eu gwaith rhyfeddol ac ysbrydoledig. Yna, holodd ynghylch y pwysau ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd ac a oedd digon o staff i ateb y galw. Esboniodd yr Aelod o'r Cabinet y pwysau ar staff a'r rôl allweddol yr oeddent yn ei chwarae o ran cysylltu ac olrhain, a rhoddwyd sicrwydd bod proses recriwtio'n mynd rhagddi ar gyfer y gwasanaeth hwn. Roedd Safonau Masnach wedi bod yn rhagweithiol iawn yn ystod y cyfyngiadau symud hefyd, gan ymateb i gwynion penodol ar yr un pryd â chydbwyso gofynion ymweld ag archfarchnadoedd a thafarndai ac ati. Nodwyd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn ag adnoddau ychwanegol. Ailadroddodd yr Arweinydd ei balchder yn y ffordd yr oedd staff wedi ymateb i'r gofynion hyn, a chyfeiriodd at y cysylltiad rhwng tafarndai, ymgynnull dan do a throsglwyddo cymunedol a'r cynnydd mewn niferoedd heintio. Cyfeiriodd Arweinydd Grŵp Plaid at y fenter Prydau Ysgol am Ddim a'r Cynllun Cyfeilla a gwaith rhyfeddol gwirfoddolwyr. Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith a wnaed gan y Cynghorydd Cymuned Judith Pritchard i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfeirio busnesau a thrigolion at y grantiau sydd ar gael. Fodd bynnag, mynegodd pryder ynglŷn â'r diffyg craffu yn ystod y cyfnod hwn a'r problemau â gwasanaethau teleffoni a chyfathrebu, a cheisiodd sicrwydd bod cyllid yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen.

Diolchodd Aelod i'r rhai a fu'n ymwneud â'r gwasanaethau cysylltu ac olrhain, a holodd ynghylch gosod uned brofi symudol yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol ac a oedd hyn yn golygu bod brigiad o achosion yn yr ardal hon. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Cymunedau fod patrwm yr achosion a welwyd ym Masn Caerffili bellach yn cael ei weld mewn ardaloedd eraill, a dyna'r rheswm dros sefydlu uned brofi symudol arall.

O ran diffyg craffu yn ystod y cyfyngiadau symud , rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Aelodau fod proses dirprwyo penderfyniadau wedi cael ei chychwyn i ymateb i'r sefyllfa frys ac i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn amserol. Fodd bynnag, roedd pob penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cyd â'r Arweinydd a'r Weithrediaeth ac roedd yr holl benderfyniadau wedi cael eu postio. Byddai craffu'n ailgychwyn yn fuan, a byddai'r Aelodau'n cael gwybod am bob cam. O ran dyrannu cyllid, rhoddodd y Swyddog Adran 151 sicrwydd i'r Aelodau fod cyllid yn cyrraedd y meysydd lle'r oedd ei angen, a bod gwariant yn cael ei ddyrannu i godau cyllideb penodol ac yn destun craffu gan Lywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd Aelod arall at y rôl yr oedd Cynghorwyr wedi'i chwarae yn ystod yr argyfwng a'r ffordd yr oeddent wedi lledaenu gwybodaeth hollbwysig i drigolion , busnesau a phartneriaid. Mynegodd ei siom ynglŷn â llwybrau cyfathrebu yn ystod yr adeg hon ac anogodd Swyddogion i beidio â bychanu'r rhan y gall Cynghorwyr ei chwarae trwy eu cysylltiadau â'r gymuned. Esboniodd yr Arweinydd fod rhoi'r offer angenrheidiol i bawb allu gweithio ar blatfform o bell wedi bod yn dasg enfawr, ac y bu'n anodd cydlynu oherwydd bod gwybodaeth wedi bod yn newid mor gyflym, ond ei bod wedi ceisio rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i bawb trwy ddiweddariadau wythnosol. Fodd bynnag, roedd yn agored i unrhyw awgrymiadau neu newidiadau i ddulliau y gellid eu defnyddio i wella ymatebion a byddai'n croesawu sgwrs bellach ynglŷn â hyn.

Teimlai'r Aelod y byddai unigolyn cyswllt uniongyrchol penodol yn helpu i ledaenu gwybodaeth ac yn darparu un pwynt cyswllt i Aelodau.

Canmolodd Aelod yr Arweinydd am ei hymateb i'r brigiad diweddaraf o achosion, a gofynnodd ynglŷn â chanllawiau i gartrefi gofal a gwarchod pobl agored i niwed, ac a fyddai hyn yn cael ei ailgychwyn yn ystod y brigiad diweddaraf hwn o achosion. Dywedwyd wrth yr Aelod nad oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgychwyn gwarchod ar hyn o bryd, ond y gallai hyn newid pe byddai nifer yr achosion yn parhau i gynyddu.

Cyfeiriodd Aelod at y ddogfen Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd, a soniodd am adrannau ynddi ar ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau, cyfathrebu â Chynghorwyr, Ysgolion a Chyrff Llywodraethu, gan ddweud ei fod yn teimlo nad oedd eu safbwyntiau'n derbyn sylw o hyd. Amlinellodd y Prif Weithredwr werthoedd craidd y Strategaeth Drawsnewid ac esboniodd na fyddai'r newid diwylliannol enfawr hwn yn cael ei gyflawni dros nos. Gofynnodd i Aelodau a oedd yn wynebu unrhyw rwystrau roi gwybod i Benaethiaid Gwasanaethau a Chyfarwyddwyr Corfforaethol am unrhyw faterion.

Yna, mynegodd Aelodau bryderon ynglŷn â'r amser yr oedd yn ei gymryd i gael canlyniadau profion COVID-19 a gofynnwyd am eglurhad o'r graddfeydd amser. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn cymryd rhwng 6 ac 8 diwrnod i gael canlyniadau, ac er nad oedd hyn yn ddelfrydol, ei fod yn gwella. Rhoddodd Mr Hartshorn sicrwydd i'r Aelodau fod Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o'r oedi o ran profion ac wedi cymryd camau i liniaru hyn.

Diolchodd y Maer i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaethau am y cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau, a nodwyd y cyflwyniad.

## 4. RHAGOLWG ARIANNOL

Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Gwasanaethau Cwsmeriaid yr adroddiad, a roddodd fanylion i'r Aelodau am y sefyllfa alldro dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20, amlinelliad o effaith ariannol ddisgwyliedig y pandemig COVID-19 ar gyllideb refeniw 2020/21, ac asesiad lefel uchel cychwynnol o'r rhagolwg ariannol tymor canolig i dymor hwy.

Yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2020, cyflwynwyd manylion yr alldro cyllideb refeniw dros dro ar

gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 i'r Cabinet. Dangosodd hyn sefyllfa gadarnhaol yn gyffredinol a chefnogodd y Cabinet yr argymhellion ynglŷn â'r Gronfa Gyffredinol, y gofynnir i'r Cyngor eu cymeradwyo bellach. Yr argymhellion hyn yw cynnal balans y Gronfa Gyffredinol ar £10.684m, fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2020; a defnyddio'r balans dros ben o £3.288m ar ddiwedd blwyddyn 2019/20 i ariannu diffyg £575k yng Nghronfa Wrth Gefn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau a throsglwyddo £2.713m i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i dalu am gostau ychwanegol posibl heb eu hariannu yn deillio o'r pandemig COVID-19.

Gan droi at y coronafeirws, roedd yr Aelodau eisoes wedi cael manylion heno am ymateb yr Awdurdod i'r pandemig a'r cyfyngiadau symud . Rydym wedi pennu ffocws newydd ar gyfer ein blaenoriaethau a'n ffyrdd o weithio, eu haddasu at ddibenion gwahanol a'u hailffurfio o fewn amser byr iawn. Arweiniodd hyn yn anochel at gostau ychwanegol sylweddol ac rydym hefyd wedi colli incwm ar draws ystod o feysydd gwasanaeth. Yn ogystal â heriau ariannol y cam ymateb cychwynnol, mae'n anochel y byddwn yn parhau i brofi pwysau ariannol arwyddocaol yn deillio o'r pandemig am y dyfodol rhagweladwy.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi y cafwyd costau ychwanegol o £5.315m eisoes ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020 mewn meysydd allweddol fel Gofal Cymdeithasol, darparu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE), Technoleg Gwybodaeth, sefydlu Hybiau Cymunedol ar gyfer darparu gofal plant a Phrydau Ysgol am Ddim. Collwyd cyfanswm o £1.819m o incwm rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 mewn meysydd allweddol, sef Canolfannau Hamdden, Lleoliadau Twristiaeth ac Arlwyo Ysgolion.

Wrth ymateb i'r pandemig, lansiodd Llywodraeth Cymru Gronfa Galedi COVID-19 gwerth £110m i ddechrau er mwyn i awdurdodau lleol hawlio costau ychwanegol a gafwyd yn uniongyrchol o ganlyniad i'r pandemig, a chyhoeddwyd £22.7m arall wedi hynny ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Yn ogystal â'r Gronfa Galedi, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sicrhau bod £78m o gyllid ar gael ar gyfer colli incwm yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau er bod y pecyn cychwynnol hwn o gyllid Llywodraeth Cymru yn dderbyniol iawn, bod cryn ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chyllid ychwanegol ar gyfer gweddill blwyddyn ariannol 2020/21. Fodd bynnag, ar 17 Awst 2020, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddiad i'w groesawu ynghylch pecyn cyllid COVID-19 ychwanegol o £264m, sy'n rhoi hyder i awdurdodau lleol baratoi eu cyllidebau ar gyfer gweddill y flwyddyn. Yn ystod mis Gorffennaf ac yn gynnar ym mis Awst, paratowyd adroddiadau monitro cyllideb yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol a oedd ar gael ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae'n bwysig pwysleisio bod yr adroddiadau hyn a'r amcanestyniadau diwedd blwyddyn cysylltiedig wedi cael eu paratoi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r £264m o gyllid ychwanegol ar 17 Awst 2020.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr amcanestyniadau 3 mis yn dangos gorwariant posibl o £4.597m ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae manylion yr amrywiadau mwyaf arwyddocaol yn erbyn cyllidebau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Dyma'r sefyllfa achos gwaethaf yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ar y pryd. Mae staff cyllid bellach yn gweithio ar baratoi amcanestyniadau wedi'u seilio ar wybodaeth mis 5. Bydd yr amcanestyniadau hyn sydd wedi'u diweddaru yn adlewyrchu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid newydd, a fydd yn arwain at sefyllfa well. Bydd adroddiadau monitro cyllideb manwl Mis 3 ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth ar gael i Bwyllgorau Craffu fel eitemau gwybodaeth. Wrth symud ymlaen, bydd yr adroddiadau monitro ar gyfer misoedd 5, 7 a 9 yn cael eu cynnwys ar agendâu Pwyllgorau Craffu i'w cyflwyno a'u trafod.

O ran y rhagolwg ariannol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, roedd yn rhy gynnar deall effaith ariannol COVID-19 yn y tymor canolig i'r tymor hir, ac roedd cryn ansicrwydd ynglŷn â faint o gyllid y bydd awdurdodau lleol yn ei dderbyn ar gyfer 2021/22 a thu hwnt. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrthi'n cynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ar hyn o bryd, y bydd ei

fanylion yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref. Oherwydd hyn, nid ydym yn debygol o gael y Setliad Ariannol Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2021/22 tan fis Rhagfyr 2020. Byddai hwn yn cael ei dderbyn ym mis Hydref mewn blwyddyn arferol. Mae hefyd yn debygol y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn canolbwyntio ar un flwyddyn yn unig ac na fydd yn darparu cyllidebau dangosol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu yn ddigynsail a'n bod yn camu i dir dieithr. Hyd yn oed cyn i COVID-19 ymddangos, derbyniwyd yn gyffredinol na all y Cyngor barhau fel y mae, a gofynnwyd i'r Aelodau gofio mai elfen bwysig o ymateb i hyn oedd Strategaeth Drawsnewid Caerffili yn y Dyfodol, Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 12 Mehefin 2019. Roedd ymddangosiad COVID-19 a'r ymateb gofynnol wedi cyflymu newid mewn rhai meysydd, a byddwn bellach yn ceisio ychwanegu at hyn wrth symud ymlaen i sicrhau y gallwn gynnig gwasanaethau cydnerth a chost-effeithiol sy'n bodloni anghenion ein cymunedau trwy'r cyfnod heriol hwn ac yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Mae'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i ddysgu trwy ei ymateb i COVID-19 wedi helpu i ailffurfio ac ymestyn y rhaglen drawsnewid. Yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf, cefnogodd y Cabinet gynnwys deg adolygiad corfforaethol yn rhaglen Tîm Caerffili, sydd oll yn ymestyn neu'n ymsefydlu ymhellach llawer o'r newidiadau cadarnhaol a weithredwyd wrth ymateb i COVID-19.

Wrth orffen, ailadroddodd yr Aelod o'r Cabinet fod y sefyllfa ariannol wedi cael ei rheoli'n dda yn ystod 2019/20, er gwaethaf yr heriau parhaus sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'r pandemig presennol yn cyflwyno heriau ariannol newydd arwyddocaol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 a thu hwnt, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n ofalus. Bydd adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd yn cael eu paratoi ar gyfer Pwyllgorau Craffu ochr yn ochr ag adroddiadau trosfwaol a baratoir ar gyfer y Cabinet a'r Cyngor. Bydd adroddiad ar wahân hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor maes o law, yn rhoi manylion Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) wedi'i ddiweddaru.

Mynegodd Aelod bryderon ynglŷn â cholli incwm o bron £2m oherwydd y bu'n rhaid i Ganolfannau Hamdden, Twristiaeth ac Arlwyo Ysgolion gau ac, ar ben hynny, y bu gostyngiad dealladwy mewn cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor. Ceisiodd yr Aelod eglurhad ynglŷn â sut gallai'r Cyngor fantoli'r cyfrifon bellach yng ngoleuni'r effaith negyddol ar y gyllideb flynyddol. Dywedwyd wrth yr Aelod bod yr incwm a gollwyd yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol wedi cael ei ariannu gan grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd yr amcanestyniadau a baratowyd ym mis 3 wedi tybio unrhyw gyllid ychwanegol bryd hynny ar gyfer colli incwm. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad dilynol ynglŷn â £264m arall o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar awdurdodau lleol i reoli eu cyllidebau ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Mae amcanestyniadau mis 5 wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd a byddai'r rhain yn dangos sefyllfa fwy cadarnhaol na honno a adroddwyd ym mis 3.

Cyfeiriodd Aelod at Dudalen 44, adran 5.4.28 o'r adroddiad, a gofynnodd ai ffigur blwyddyn gyfan oedd yr amcanestyniad hwn. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 fod hynny'n wir, a dywedodd er bod buddsoddiadau a gynlluniwyd wedi cael eu hatal dros dro o ganlyniad i effaith economaidd y pandemig, fod opsiynau amgen yn cael eu hystyried gyda Chynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor. Yna, aeth yr Aelod ymlaen i holi ynghylch yr effaith ar fuddsoddiadau cyffredinol a Chronfeydd Pensiwn. Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 fod buddsoddiadau pensiwn yn cael eu rheoli gan Gronfa Bensiynau Gwent Fwyaf, ac felly ni allai wneud sylwadau ar eu dewisiadau buddsoddi.

Mynegodd Aelod bryder bod arian yn cael ei roi o'r neilltu yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor, yn ei dyb ef, ac y disgwylir i'r Cyngor hwn gynnal balans y Gronfa Gyffredinol ar £10.684m unwaith eto. Rhoddodd y Swyddog Adran 151 sicrwydd i'r Aelodau fod agwedd ochelgar y Cyngor at reolaeth ariannol yn golygu ei fod yn y sefyllfa orau posibl i ymateb i heriau'r dyfodol, ac fe'u hatgoffodd nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru

yn darparu cyllid yn y dyfodol. Byddai adroddiadau ychwanegol ar Gronfeydd Wrth Gefn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar Bolisïau ac Adnoddau yn ystod y misoedd i ddod, a byddai Aelodau'n parhau i gael gwybodaeth lawn.

Gwrthbrofodd y Dirprwy Arweinydd y sylwadau a wnaed a'r defnydd o'r term 'rhoi o'r neilltu', a oedd fel petai'n awgrymu bod arian yn cael ei guddio'n amhriodol neu'n ddirgel, a phwysleisiodd i'r Aelodau fod agwedd ochelgar y Cyngor hwn wedi sicrhau ei sefydlogrwydd ariannol drwy gydol yr argyfwng hwn ac yn cael ei chanmol flwyddyn ar ôl blwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru. Ailadroddodd yr Aelod ei fod.

Nododd yr Arweinydd y sylwadau a wnaed a diolchodd i'r Swyddog Adran 151 a'r Gwasanaethau Ariannol am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Gofynnodd i'r Aelodau nodi bod yr ymagwedd ochelgar hon yn golygu bod prosiectau fel yr Agenda Ffurfio Lleoedd yn gallu symud ymlaen, y byddai mwy o fanylion amdani'n cael eu darparu yn ystod y misoedd i ddod.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo, a thrwy bleidleisio trwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (gan nodi bod 1 yn erbyn ac 1 ymataliad), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD:

(i) nodi'r adroddiad;

(ii) bod balans y Gronfa Gyffredinol o £10.684m yn cael ei gynnal fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cyngor ar 20 Chwefror 2020;

(iii) bod balans dros ben y Gronfa Gyffredinol o £3.288m yn cael ei ddyrannu fel a ganlyn:

£575k i ariannu'r diffyg presennol yng Nghronfa Wrth Gefn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau, a throsglwyddo £2.713m i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i dalu am gostau ychwanegol posibl heb eu hariannu yn deillio o'r pandemig COVID -19;

(iv) bod y trefniadau monitro cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, fel y'u hamlinellir ym mharagraffau 5.5.8 a 5.5.9 yr adroddiad, yn cael eu nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm

Cymeradwywyd bod y cofnodion yn gofnod cywir, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 17 Tachwedd 2020, ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

__________________________

Y MAER